Disgwylir i'r ymgeiswyr wneud gwaith ymchwil drwy ddefnyddio ffynonellau megis:

- Y we
- Cylchgronau / llyfrau chwaraeon
- Pytiau o raglenni chwaraeon
- Hen ffotograffau / cardiau post
- Papurau bro
- Ymweliadau e.e. Stadiwm y Mileniwm, Parc y Sgarlets
- Cyfweliadau â chwaraewyr / cefnogwyr.

Dylai'r cyflwyniad unigol ddangos tystiolaeth o waith ymchwil gan yr ymgeiswyr. Gall yr ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled). Dylai'r athro / athrawes gadw'r pwyntiau bwled wedi'r cyflwyniad a'u hanfon gyda'r sampl llafar at y safonwr. Gellir defnyddio cyfarpar megis *Powerpoint* wrth wneud y cyflwyniad. Ond ni chaniateir dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled o fewn y cyflwyniad yn ei gyfanrwydd.

DRAFT

TASG 2 – LLAFAREDD (10%) AC YSGRIFENNU (5%)

- Disgwylir i'r ymgeiswyr weithio mewn pâr/grŵp o dri a chynnal sgwrs sefyllfa ar gyd-destun penodol. Dylai'r athrawon roi'r dasg Sgwrs Sefyllfa i'r ymgeiswyr bedair wythnos cyn y prawf. Yn ystod y cyfnod cyn y prawf gall yr athro/athrawes drafod a chynnig cyngor i'r ymgeiswyr. Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled) wrth wneud y prawf. Dylai'r athro/athrawes gadw'r pwyntiau bwled wedi'r prawf a'u hanfon gyda'r sampl llafar at y safonwr. Bydd CBAC yn darparu banc o dasgau enghreifftiol a bydd rhain yn cael eu hadnewyddu bob dwy flynedd. Os bydd canolfan yn penderfynu gosod eu tasgau eu hunain neu'n addasu o'r banc o dasgau enghreifftiol, bydd rhaid eu hadnewyddu bob dwy flynedd a'u hanfon at CBAC cyn eu defnyddio.

- Hyd y dasg

  Gwaith pâr: 4 – 7 munud
  Gwaith grŵp: 6 – 10 munud

Enghraifft 1

Sgwrs sefyllfa:

Y dasg

Rydych chi'n trefnu trip ysgol. Mae'n rhaid cael elfen addysgiadol/ diwylliannol ac adloniadol ar y trip. Rhaid i bob aelod o'r grŵp wneud gwaith ymchwil a phenderfynu ar leoliad gwahanol.

Disgwylir i'r ymgeiswyr drafod y canlynol:

- Pris e.e. pris terfynol, pris mynediad
- Dull teithio/amser
- Bwyd/cyfleusterau a phrisiau bwyd
- Amseroedd e.e. agor, cau, diwrnodau
- Cyfleusterau i'r anabl
- Llety
- Gwisg addas
- Gwybodaeth ychwanegol am y lleoliadau e.e. adolygiadau byr gan bobl eraill/ gwybodaeth hanesyddol
- Adnoddau e.e. adnoddau addysgol, gwybodaeth gefndirol am y lle.

Rhaid i'r pâr/grŵp ddod i benderfyniad/casgliad ar ôl trin a thrafod manteision ac anfanteision y lleoliadau.

- Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled) wrth wneud y prawf ac mae'n rhaid cyflwyno'r pwyntiau bwled i'r athro/athrawes ar ddiwedd y prawf.

DRAFT

Tasg ysgrifennu: Llythyr ffurfiol at ganolfan yn gofyn am wybodaeth.

Hyd y dasg: Rhwng 100 – 250 o eiriau.

Enghraifft 2

Sgwrs sefyllfa:
Mae angen i chi benderfynu ar sut i wella eich ardal a pha gyfleusterau yn arbennig sydd eu hangen. Rhaid i bob aelod o'r grŵp wneud gwaith ymchwil a phenderfynu beth sydd fwyaf addas.

Disgwylir i ymgeiswyr drafod y canlynol:

- Pa gyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd
- Prisiau
- Oriau agor/dyddiadau agor
- Diffyg cyfleusterau
- Cyfleusterau'r anabl/plant bach
- Gwybodaeth ychwanegol e.e sawl cwrt sboncen
- Parcio/ trafnidiaeth gyhoeddus/teithio
- Cymharu beth sydd mewn ardal gyfagos
- Digwyddiadau arbennig

Rhaid i'r pâr/grŵp ddod i benderfyniad/ casgliad beth sydd angen fwyaf yn yr ardal.

- Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 gair ar ffurf pwyntiau bwled) wrth wneud y prawf ac mae'n rhaid cyflwyno'r pwyntiau bwled i'r athro/athrawes ar ddiwedd y prawf.

Tasg ysgrifennu: Holiadur a dadansoddiad ar sut i wella cyfleusterau.

Dylai'r athrawon roi'r dasg i'r ymgeiswyr bedair wythnos cyn y prawf, yr un pryd â'r sgwrs sefyllfa.

Bydd rhyddid gan ymgeisydd i ddefnyddio geiriaduron neu ddeunydd pwrpasol e.e. pwyntiau bwled sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol (dim mwy no 40 gair) ar gyfer y dasg ysgrifennu. Dylid anfon y deunydd pwrpasol gyda'r gwaith ysgrifennu i CBAC.

Gall ymgeiswyr gwblhau'r gwaith drwy ddefnyddio TG ond mae'n rhaid i'r athrawon sicrhau na fydd mynediad gan yr ymgeiswyr i wirwyr sillafu.

Ni chaiff ymgeiswyr ymgynghori â'i gilydd.

Caniateir **1 awr** i gyflawni'r dasg. Dylai ymgeiswyr brawf-ddarllen a gwirio eu gwaith ysgrifenedig cyn ei gyflwyno ar ddiwedd y cyfnod.

Caniateir mwy o amser i ymgeiswyr a chanddynt anghenion arbennig.

Ni ddylid ailddrafftio'r gwaith ar unrhyw gyfrif ac ni ddylai'r ymgeiswyr ail ysgrifennu'r dasg.

DRAFT

CYNLLUN MARCIO DARLLEN AC YSGRIFENNU (Sylfaenol ac Uwch) – UNED 1

C.1 (i) Darllen e-bost **10 marc**

Pêl-droed	**2 farc**
Canŵio	**2 farc**
Eglwys Fawr	**2 farc**
Pizza	**2 farc**
Cartŵn	**2 farc**

(ii) **(6+ ✓ = 4) 10 marc**

Dod adre	dydd Mawrth	**1 marc**
Cyrraedd Caerdydd	4.30	**1 marc**
Rhif ffôn newydd	07453678	**1 marc**
Mynd i'r coleg	dydd Iau	**1 marc**
Nos Sadwrn	clwb nos Kings	**1 marc**
Prynhawn dydd Sul	sinema	**1 marc**

4 marc - elfen dda iawn o gywirdeb
3 marc - elfen dda o gywirdeb
2 farc - elfen eithaf da o gywirdeb
1 marc - elfen weddol o gywirdeb

C.2 Llenwi ffurflen **20 marc**

Cynnwys **10 marc**

Cyfeiriad		**1 marc**
Rhif ffôn cartref		**1 marc**
Hobi (tu allan)	– Ble?	**1 marc**
	– Pryd?	**1 marc**
	– Pam?	**2 farc**
Hobi (tu mewn)	– Ble?	**1 marc**
	– Pryd?	**1 marc**
	– Pam?	**2 farc**

<u>Cywirdeb iaith</u> hyd at **10 marc**

10 - 9	Cyfathrebu pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa dda. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith.
8 - 7	Yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith ond ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa eithaf da i gyflawni'r dasg ond yn llai uchelgeisiol na'r uchod.
6 - 5 - 4	Ymdrech i ymateb i'r dasg. Yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau gan ddefnyddio geirfa ddigonol.
3 - 2 – 1	Ymdrech i gyfathrebu mewn rhai mannau, ond geirfa gyfyngedig iawn.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

C.3 (Sylfaenol)
C.1 (Uwch)

(i) Llenwch y proffil am Cerys Matthews.
Complete the profile about Cerys Matthews. **[24]**

Enw: Cerys Matthews

Geni. Ble? Caerdydd ..... [1]
Pryd? Mis. Ebrill ..... [1]
Blwyddyn. 1969 ..... [1]

Gwaith ei thad: meddyg ..... [1]

Mynd i'r ysgol uwchradd. Ble? Llanelli ..... [1]

Yn yr ysgol, hoffi canu: 1 marc yr un am unrhyw ganeuon y Beatles, canu gwerin, canu gwerin a chanu gwlad [2]

Gwaith cyntaf: nani ..... [1]

Ble? Barcelona..... [1]

Astudio yn y coleg. Ble? Caerdydd ..... [1]
Pam? eisiau bod yn nyrs ..... [1]

Grŵp Catatonia
Dechrau. Pryd? 1992..... [1]

Gyda phwy arall yn y grŵp? Marc Roberts..... [1]

Hoff ganeuon. (a) Mulder and Scully..... [1]
(b) Road Rage..... [1]

Wedi ennill pa wobr? Gwobr gwerin Radio 2..... [1]

Byw yn 2003: America..... [1]

Cyfarfod ei gŵr. Ble? Nashville..... [1]
Sut? Cerdded y ci..... [1]

Diddordebau tebyg? Cerddoriaeth ..... [1]

Priodi. Ble? Sir Benfro..... [1]

Mynd i'r capel – sut? tractor..... [1]

Dau beth gorau i Cerys yn ei gyrfa (a) y plant..... [1]
(b) canu gyda Tom Jones..... [1]

DRAFT

Ysgrifennwch **dair** brawddeg yn y 3ydd person, yn rhoi 3 ffaith am beth mae Cerys yn ddweud am '*I'm a celebrity ...'.*
*Write **three** sentences in the 3rd person, giving 3 facts about what Cerys says about 'I'm a celebrity ...'.*
Rhaid i chi sôn am beth roedd hi'n hoffi a ddim yn hoffi.
You must write about what she liked and didn't like.

[✓ = 6]

Hyd at 6 marc am gyfathrebu

DRAFT

C.4 (Haen Sylfaenol)
C.2 (Haen Uwch)
Ysgrifennu Llythyr **30 marc**

Cynnwys **15 marc**

Dylid cyfeirio at y gofynion

12 - 15 Yn gallu ymdrin yn llwyddiannus â'r holl ofynion a'r sgiliau, gyda dechrau a diwedd addas i'r llythyr. Y llythyr yn datblygu'n naturiol gydag amrywiaeth eang iawn o syniadau.

10 - 11 Yn gallu ymateb i'r gofynion yn weddol gyflawn ond rhai rhannau'n well na'i gilydd. Llythyr synhwyrol a pheth datblygiad naturiol gydag amrywiaeth o syniadau.

7 - 9 Yn llwyddo i ysgrifennu ymatebion eithaf diddorol ac eithaf cynhwysfawr. Yn cadw at lefel eithaf sylfaenol ac yn tueddu i gael trafferth gyda'r adrannau anoddaf.

4 - 6 Yn ymdopi â'r dasg ar lefel syml ac yn gwneud ymdrech deg i ymateb i rai o'r pwyntiau sylfaenol yn unig.

1 - 3 Gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw lle ymdrechir i ymateb i bwyntiau syml.

0 Dim i'w wobrwyo.

Mynegiant **15 marc**

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm
(c) y gallu i ddefnyddio'r ferf, amser a pherson yn briodol
(ch) y gallu i ddefnyddio patrymau brawddegol ffurfiol
(d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon, llwyddiannus

12 - 15 Cyfathrebu hynod o lwyddiannus, amrywiaeth dda o gystrawennau a phatrymau brawddegol, geirfa eang, syniadau pwrpasol a diddorol iawn, rhediad naturiol a defnydd cywir o amser y ferf (amser a pherson). Ymatebion cywir.

10 - 11 Ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eithaf da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith.

7 - 9 Yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith ond ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg.

4 - 6 Ymdrech i ymateb i'r dasg. Yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau, ond geirfa ac ymadroddion weddol gyfyng.

1 - 3 Ymdrech i gyfathrebu mewn rhai mannau, ond geirfa gyfyngedig iawn.

0 Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

C3. Darllenwch syniadau John, Lesley ac Annette am bynciau cyfoes ac yna llenwch y gridiau.
Read John, Lesley and Annette's ideas about contemporary issues and then complete the grids

[40]

John

Dw i'n meddwl bod siopa ar y we yn gyfleus a does dim rhaid i chi wario arian i fynd i siopa ar y bws neu'r trên. Ddoe roedd fy ffrind gorau yn cael ei ben-blwydd yn un deg wyth oed. Mae llawer o fy ffrindiau yn gweithio yn Tesco gyda'r nos ac yn y gwyliau. Rydyn ni'n ennill arian i brynu dillad ac i fynd allan, felly mae'n beth da. Dw i'n byw mewn stryd hyfryd ond mae'r stryd yn edrych yn ofnadwy ar nos Sadwrn. Mae rhai pobl yn taflu bagiau sglodion a bocsys pizza ar y stryd ar ôl bod yn y siop *take away*.

1 marc yr un

Pynciau	**Beth mae John yn meddwl**	**Rheswm**
Siopa ar y we	Yn gyfleus	Dim rhaid gwario arian i fynd i siopa ar y bws neu'r trên
Gwaith rhan-amser	Ffrindiau'n gweithio gyda'r nos ac yn ystod y gwyliau	Peth da achos maen nhw'n ennill arian
Problemau'r ardal	Stryd yn edrych yn ofnadwy ar nos Sadwrn	Pobl yn taflu sbwriel ar y stryd

DRAFT

Lesley

Dw i ddim yn hoffi siopa ar y we o gwbl achos rydw i'n hoffi gweld a theimlo'r pethau dw i'n prynu. Mae gwaith rhan-amser yn beth drwg ym mlwyddyn 11. Mae fy ffrindiau yn gweithio bob nos a dydyn nhw ddim wedi gorffen eu gwaith cwrs. Mae stad newydd hyfryd yn ein hardal ni, ond mae problemau gyda'r stad. Mae pobl ifanc yn rasio ceir a beiciau modur yn stad gyda'r nos a chafodd bachgen un deg chwech oed ei ladd yr wythnos diwethaf.

1 marc yr un

Pynciau	Beth mae Lesley'n meddwl	Rheswm
Siopa ar y we	Ddim yn hoffi	Hoffi gweld a theimlo'r pethau mae hi'n brynu
Gwaith rhan-amser	Peth drwg	Ffrindiau ddim wedi gorffen eu gwaith cwrs
Problemau'r ardal	Problemau yn y stad	Pobl ifanc yn rasio ceir a beiciau modur

DRAFT

Annette

Mae siopa ar y we yn wastraff amser, dydy'r lliwiau ddim yn edrych yn iawn a dydych chi ddim yn siwr o'r maint chwaith. Mae gwaith rhan-amser yn brofiad da iawn achos rydych chi'n dysgu sut i ddelio gydag arian a sut i ddod ymlaen gyda phobl. Problem fawr yn yr ardal ydy sbwriel. Mae'r lori sbwriel yn casglu sbwriel unwaith y pythefnos ac mae pobl yn taflu eu sbwriel i'r afon pan mae'r bin yn llawn.

1 marc yr un

Pynciau	**Beth mae Annette yn meddwl**	**Rheswm**
Siopa ar y we	sbwriel	Lliwiau ddim yn edrych yn iawn a ddim yn siwr o'r maint
Gwaith rhan-amser	Profiad da	Dysgu sut i ddelio efo arian a dod ymlaen efo pobl
Problemau'r ardal	Problem sbwriel	Lori sbwriel yn casglu unwaith bob pythefnos

(b) Nawr ysgrifennwch eich barn chi isod.
Now write your opinion below. **[✓= 8]**

Hyd at 8 marc am gyfathrebu

DRAFT

C.4 Ysgrifennu estynedig — 40 marc

Cynnwys — 20 marc

Gwobrwyir:

(a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
(b) barn bendant a synhwyrol
(c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
(ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
(d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

20 - 19 - 18	Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant iawn gydag amrywiaeth eang iawn o syniadau aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a pherthnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn.
17 - 16 - 15	Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gydag amrywiaeth o syniadau a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus.
14 - 13 - 12	Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i fynegi barn yn eithaf clir gyda rhai syniadau da a chynllun eithaf da i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd.
11 - 10 - 9	Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Y farn a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol.
8 - 7 - 6	Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel sylfaenol yn unig. Ar y cyfan yn gwneud peth ymdrech i fynegi barn yn syml.
5 - 4 - 3	Ychydig iawn o syniadau a barn ar y cyfan ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw.
2 - 1	Ymdrech i ymdrin â'r dasg ar lefel arwynebol iawn yn unig.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

Mynegiant **20 marc**

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
(c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
(ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
(d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.y.b. ac efallai elfen o hiwmor.
(dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

20 - 19 - 18	Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus iawn. Elfen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.
17 - 16 - 15	Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Elfen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
14 - 13- 12	Mynegiant derbyniol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
11 - 10 - 9	Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol ond yn ein hargyhoeddi y gallant ymdopi â'r dasg yn weddol lwyddiannus.
8 - 7 - 6	Yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau ac yn cael anhawster i fynegi barn.
5 - 4 - 3	Yn gwneud ymdrech i ddefnyddio ychydig o batrymau brawddegol yn gywir. Geirfa weddol gyfyng a defnydd anghywir o ffurfiau berfol ar brydiau.
2 - 1	Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

CYNLLUN MARCIO DARLLEN AC YSGRIFENNU (SYLFAENOL AC UWCH) – UNED 4

C.1 **20 marc**

(a) Darllen e-bost

Clwb leuenctid		Pen-y-Ffordd	**1 marc**
Dydd		Sul	**1 marc**
Dyddiad		22	**1 marc**
Mis		Mehefin	**1 marc**
Dechrau		10.30	**1 marc**
Gorffen		4.00	**1 marc**
Y daith gerdded		9 milltir	**1 marc**
Amser cinio		1 o'r gloch	**1 marc**
Bwyta amser cinio	(i)	brechdanau	**1 marc**
	(ii)	ffrwythau	**1 marc**
I yfed	(i)	dŵr	**1 marc**
	(ii)	sudd oren	**1 marc**
Rhaid gwisgo esgidiau	(i)	cerdded	**1 marc**
Dod â dillad	(ii)	glaw	**1 marc**

Dewis y lluniau cywir

Gwobr gyntaf – beic mynydd [2] **2 farc**

Ail wobr – teledu bach [7] **2 farc**

Trydedd wobr – crys pêl-droed Cymru [9] **2 farc**

DRAFT

C.2 Ysgrifennu e-bost **20 marc**

Cynnwys **10 marc**

Fi a fy nheulu – 1 marc am bob ffaith **2 farc**
Y penwythnos – 1 marc am bob ffaith **4 farc**
Yr ysgol – 1 marc am bob ffaith **4 farc**

Cywirdeb iaith hyd at **10 marc**

10 – 9	E-bost pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa dda. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith.
8 – 7	Yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith ond ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa eithaf da i gyflawni'r dasg ond yn llai uchelgeisiol na'r uchod.
6 – 5 – 4	Ymdrech i ymateb i'r dasg. Yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau gan ddefnyddio geirfa ddigonol.
3 – 2 – 1	Ymdrech i gyfathrebu mewn rhai mannau, ond geirfa gyfyngedig iawn.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

C.3 (Haen Sylfaenol)
C.1 (Haen Uwch)

Ysgrifennwch y pethau mae Richard a Mari'n wneud gyda'r canlynol:
W*rite the things Richard and Mari do with the following*:

Richard

(a) cadw'n heini (*keeping fit)*	(c) ffonau symudol (*mobile phones*)
i. chwarae rygbi **1 marc**	i. ffonio mam **1 marc**
ii. mynd i'r ysgol ar y beic **1 marc**	ii. ffonio 999 **1 marc**
(b) cyfrifiadur a'r we (*computer and the internet*)	(ch) cylchgronau – darllen am: (*magazines – reads about*:)
i. gwneud gwaith cartref ar y we **2 farc**	i. prynu cylchgrawn rygbi **2 farc**
ii. ffeindio enwau afonydd yn Awstralia **2 farc**	ii. Ryan Giggs yn Lingo **2 farc**

Mari

(a) cadw'n heini (*keeping fit)*	(c) ffonau symudol (*mobile phones*)
i. gweithio yn y pwll nofio **1 marc**	i. ffonio Andy **1 marc**
ii. rhedeg ar y mynydd **1 marc**	ii. cael ffôn symudol newydd **1 marc**
(b) cyfrifiadur a'r we (*computer and the internet*)	(ch) cylchgronau – darllen am: (*magazines – reads about*:)
i. edrych am trainers newydd ar y we **2 farc**	i. rhedeg traws gwlad **2 farc**
ii. dysgu i ddefnyddio 'rhaglen office' **2 farc**	ii. canu pop **2 farc**

Ysgrifennwch ddwy frawddeg **yn Gymraeg,** yn dweud beth rydych chi'n wneud sy'n debyg neu'n wahanol i Richard a/neu Mari.
*Write two sentences **in Welsh,** saying what you do which is similar or different to Richard and/or Mari*.

Gallwch ddechrau brawddegau – Fel Richard... Yn wahanol i Mari...
You can start your sentences - Like Richard… Different to Mari...

Hyd at 6 marc am gyfathrebu

DRAFT

C.4 (Haen Sylfaenol) Ysgrifennu blog 30 marc
C.2 (Haen Uwch)

Cynnwys 15 marc

Dylid cyfeirio at y gofynion

15 - 14 Yn gallu ymdrin yn llwyddiannus â'r holl ofynion a'r sgiliau, gyda dechrau a diwedd addas i'r gwaith. Y gwaith yn datblygu'n naturiol gydag amrywiaeth eang iawn o syniadau.

13 - 12 Yn gallu cyfeirio at y mwyafrif o'r gofynion a'r sgiliau. Y gwaith yn datblygu'n weddol naturiol gydag amrywiaeth o syniadau.

11 - 10 Yn gallu ymateb i'r gofynion yn weddol gyflawn ond rhai rhannau'n well na'i gilydd. Gwaith synhwyrol a pheth datblygiad naturiol.

9 - 8 - 7 Yn llwyddo i ysgrifennu ymatebion eithaf diddorol ac eithaf cynhwysfawr. Yn cadw at lefel eithaf sylfaenol ac yn tueddu i gael trafferth gyda'r adrannau anoddaf.

6 - 5 - 4 Yn ymdopi â'r dasg ar lefel syml ac yn gwneud ymdrech deg i ymateb i rai o'r pwyntiau sylfaenol yn unig.

3 - 2 - 1 Gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw lle ymdrechir i ymateb i bwyntiau syml.

0 Dim i'w wobrwyo.

Mynegiant 15 marc

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm
(c) y gallu i ddefnyddio'r ferf, amser a pherson yn briodol
(ch) y gallu i ddefnyddio patrymau brawddegol ffurfiol
(d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon, llwyddiannus.

15 - 14 Cyfathrebu hynod o lwyddiannus, amrywiaeth dda o gystrawennau a phatrymau brawddegol, geirfa eang, syniadau pwrpasol a diddorol iawn, rhediad naturiol a defnydd cywir o amser y ferf (amser a pherson). Ymatebion cywir.

13 - 12 Cyfathrebu llwyddiannus, amrywiaeth o gystrawennau a phatrymau brawddegol, geirfa dda, syniadau pwrpasol, diddorol, a defnydd cywir ar y cyfan o amser y ferf (amser a pherson). Ymatebion cywir ar y cyfan.

11 - 10 Ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eithaf da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith.

DRAFT

9 - 8 - 7	Yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith ond ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod.
6 - 5 - 4	Ymdrech i ymateb i'r dasg. Yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau, ond geirfa ac ymadroddion weddol gyfyng.
3 - 2 - 1	Ymdrech i gyfathrebu mewn rhai mannau, ond geirfa gyfyngedig iawn.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

C.3 (Haen Uwch)

(i) Rhowch 4 ffaith am fywyd personol Rhydian cyn gadael yr ysgol. [4]
(Write 4 facts about Rhydian's life before leaving school.)

Unrhyw 4 = 1 marc yr un
- Geni yn ysbyty Aberhonddu – Chwefror 14, 1983
- Ysgol Feithrin Pontsenni
- Ysgol Gynradd Gymraeg y Bannau
- Coleg Llanymddyfri
- Prif ddisgybl
- Llawer o ffrindiau

Rhowch 3 ffaith am ei ddiddordebau [6]
(Write 3 facts about his interests.)

Unrhyw 3 = 2 farc yr un
- Chwaraeon
- Cadw'n heini
- Ymarfer yn y gampfa
- Codi pwysau

Rhowch 3 ffaith am ei brofiadau canu. [6]
(Write 3 facts about his singing experiences.)

Unrhyw 3 = 2 farc yr un
- Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd
- Astudio canu yn y brifysgol
- Ennill gwobr Kathleen Ferrier
- Cystadlu yn rowndiau cyntaf 'Any Dream Will Do'

Hyd at 4 marc am gyfathrebu

(ii) (a) = 2 farc [8]
(b) = 2 farc am gytuno/anghytuno
hyd at 4 marc am resymau

(iii) (a) = 2 farc [8]
(b) = 2 farc am gytuno/anghytuno
hyd at 4 marc am resymau

Hyd at 4 marc am gyfathrebu.

DRAFT

C.4 Ysgrifennu estynedig — 40 marc

Cynnwys — 20 marc

Gwobrwyir:

(a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
(b) barn bendant a synhwyrol
(c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
(ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
(d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

20 - 19 - 18	Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant iawn gydag amrywiaeth eang o syniadau aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a pherthnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn.
17 - 16 - 15	Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gydag amrywiaeth o syniadau a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus.
14 - 13 - 12	Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i fynegi barn yn eithaf clir gyda rhai syniadau da a chynllun eithaf da i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd.
11 - 10 - 9	Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod a'r farn a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol.
8 - 7 - 6	Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel sylfaenol yn unig. Ar y cyfan yn gwneud peth ymdrech i fynegi barn yn syml.
5 - 4 - 3	Ychydig iawn o syniadau a barn syml ar y cyfan ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw.
2 - 1	Ymdrech i ymdrin â'r dasg ar lefel arwynebol iawn yn unig.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

Mynegiant **20 marc**

Gwobrwyir:

(a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
(c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
(ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
(d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor
(dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

20 - 19 - 18	Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus iawn. Elfen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.
17 - 16 - 15	Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Elfen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
14 - 13- 12	Mynegiant derbyniol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
11 - 10 - 9	Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol ond yn ein hargyhoeddi y gallant ymdopi â'r dasg yn weddol lwyddiannus.
8 - 7 - 6	Yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau ac yn cael anhawster i fynegi barn.
5 - 4 - 3	Yn gwneud ymdrech i ddefnyddio ychydig o batrymau brawddegol yn gywir. Geirfa weddol gyfyng a defnydd anghywir o ffurfiau berfol ar brydiau.
2 - 1	Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn.
0	Dim i'w wobrwyo.

DRAFT

CYNLLUN MARCIO LLAFAREDD A DARLLEN (Sylfaen ac Uwch) – UNED 3

Llafar – Gwaith Pâr / Grŵp

AA1

Marc	**Cynnwys**	**Mynegiant**	**Marc**
19-20	• Amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau estynedig lle'n briodol. • Holi ac ateb yn hyderus iawn. • Mynegi barn yn hyderus iawn gan ymresymu'n berthnasol, ac yn barod iawn i gynnal dadl. • Ymateb i gyfraniadau eraill yn llawn trwy gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau. • Cyd-adweithio ag eraill yn hyderus iawn.	• Cyfathrebu'n hyderus iawn. • Geirfa eang a chyfoethog. • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion a phriod ddulliau Cymraeg yn gyson gywir. • Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. • Elfen gref iawn o gywirdeb. • Ynganu'n glir ac yn gywir iawn.	19-20
17-18	• Amrywiaeth eang o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth gan gynhyrchu cyfraniadau eithaf estynedig weithiau. • Holi ac ateb yn hyderus. • Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol wrth gynnal dadl. • Ymateb i gyfraniadau eraill yn ddeallus wrth gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau. • Cyd-adweithio ag eraill yn hyderus.	• Cyfathrebu'n hyderus. • Geirfa eang. • Defnyddio ystod amrywiol o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn rheolaidd gywir. • Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd. • Elfen gref o gywirdeb. • Ynganu'n glir ac yn gywir.	17-18
15-16	• Diddorol o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon hyderus. • Holi ac ateb yn eithaf hyderus. • Yn barod iawn i fynegi barn gan roi rhesymau dilys. • Ymateb i gyfraniadau eraill yn ystyrlon wrth gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau. • Cyd-adweithio'n dda iawn ag eraill.	• Cyfathrebu'n rhwydd. • Geirfa dda iawn. • Defnyddio ystod o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn gywir. • Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Iaith yn gywir iawn ar y cyfan. • Ynganu'n glir ac yn gywir ar y cyfan.	15-16

DRAFT

Marc	**Cynnwys**	**Mynegiant**	**Marc**
12-14	• Digonol o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. • Holi ac ateb yn effeithiol. • Yn barod i fynegi barn gan roi rhesymau digonol. • Ymateb i gyfraniadau eraill yn ddigon ystyrlon gan gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau. • Cyd-adweithio'n dda ag eraill.	• Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan. • Geirfa dda. • Defnyddio amrywiaeth o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn gywir ar y cyfan. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir. • Iaith yn gywir ar y cyfan. • Ynganu'n glir ac yn gywir fel arfer.	12-14
9-11	• Digonol o ran syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach. • Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon effeithiol ar y cyfan. • Holi ac ateb yn eithaf effeithiol. • Mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan. • Ymateb i gyfraniadau eraill gan gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau weithiau. • Cyd-adweithio'n dda ag eraill weithiau.	• Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan. • Geirfa eithaf da. • Defnyddio rhai cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio rhai ymadroddion Cymraeg yn gywir. • Defnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson). • Iaith yn weddol gywir ar y cyfan. • Ynganu'n ddigon clir a chywir.	9-11
7-8	• Arwynebol o ran syniadau a barn gan gadw at y disgwyliadwy. • Cyflwyno gwybodaeth ar bwnc cyfarwydd yn ddigon effeithiol. • Gofyn rhai cwestiynau ac yn ymateb. • Mynegi barn yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml. • Ymateb yn syml i gyfraniadau eraill gan gytuno/anghytuno. • Cyd-adweithio ag eraill ar lefel sylfaenol yn unig.	• Cyfathrebu'n ddealladwy. • Geirfa ddisgwyliadwy. • Defnyddio ambell gwestiwn a phatrwm brawddegol. • Defnyddio ymadroddion Cymraeg ond camgymeriadau amlwg. • Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). Dibynnu'n ormodol ar y presennol. • Iaith yn weddol gywir ond camgymeriadau amlwg. • Ynganu'n glir weithiau.	7-8

DRAFT

Marc	**Cynnwys**	**Mynegiant**	**Marc**
5-6	• Arwynebol iawn o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth syml ar bwnc cyfarwydd. • Gofyn rhai cwestiynau disgwyliadwy ac ymateb yn syml. • Mynegi barn syml gan roi rhesymau syml. • Ymateb i gyfraniadau eraill yn syml. • Cyd-adweithio ag eraill ar lefel sylfaenol iawn.	• Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a herciog iawn. • Geirfa gyfyng a defnyddio'r Saesneg yn aml. • Defnydd cyfyngedig o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion Cymraeg. • Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). • Iaith elfennol. • Ynganu'n ddealladwy i wrandäwr cydymdeimladol.	5-6
3-4	• Ychydig iawn o gynnwys, syniadau a barn. • Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn. • Gofyn ambell gwestiwn syml ac ateb yn syml iawn. • Mynegi barn syml iawn heb resymau. • Ychydig iawn o ymateb i gyfraniadau eraill. • Anhawster i gyd-adweithio ag eraill.	• Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandäwr cydymdeimladol. • Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg. • Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach na chwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnydd cyfyngedig iawn o ymadroddion Cymraeg. • Ffurfiau berfol anghywir yn aml. • Iaith elfennol iawn. • Ynganu'n aneglur fel arfer.	3-4
0-2	• Anhawster i holi, ateb, mynegi barn, rhesymu, ymateb a chyd-adweithio ag eraill. • Cyfraniad cyfyngedig i'r drafodaeth.	• Ymdrech i gyfathrebu'n ddealladwy ar brydiau'n unig. • Geirfa gyfyng a syml iawn.	0-2

DRAFT

AA2

Darllen – CYNNWYS

Marc	
8	• Yn gallu dethol a chyflwyno'r holl bwyntiau yn synhwyrol • Dangos dealltwriaeth gyflawn o'r holl ddarnau darllen
6 - 7	• Yn gallu dethol a chyflwyno'r mwyafrif o'r pwyntiau'n synhwyrol • Dangos dealltwriaeth gweddol gyflawn o'r holl ddarnau darllen
5	• Yn gallu dethol a chyflwyno rhai o'r prif bwyntiau (Uwch) • Yn gallu dethol a chyflwyno'r mwyafrif o'r pwyntiau (Sylfaenol) • Dangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen C ac ambell bwynt o'r ddau arall (Uwch) • Dangos dealltwriaeth gyflawn o'r holl ddarnau darllen (Sylfaenol)
3 – 4	• Yn gallu dethol a chyflwyno nifer o bwyntiau syml yn y darn darllen sylfaenol • Dangos peth dealltwriaeth o'r pwyntiau mwyaf syml
1 – 2	• Yn gallu dethol a chyflwyno rhai pwyntiau syml yn y darn darllen sylfaenol • Dangos peth dealltwriaeth o'r pwyntiau symlaf

MYNEGIANT

Hyd at 2 farc am gyfathrebu'n ystyrlon.

DRAFT

ASESIAD DAN REOLAETH – UNED 2

TASG 1 – Llafar – Y Cyflwyniad Unigol

Marc	Cynnwys	Mynegiant	Marc
19-20	• Amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau estynedig lle'n briodol. • Mynegi barn yn hyderus iawn gan ymresymu'n berthnasol.	• Cyfathrebu'n hyderus iawn. • Geirfa eang a chyfoethog. • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gyson gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. • Elfen gref o gywirdeb. • Ynganu bron yn berffaith.	19-20
17-18	• Amrywiaeth eang o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau eithaf estynedig weithiau. • Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol.	• Cyfathrebu'n hyderus. • Geirfa gyfoethog. • Defnyddio ystod amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn rheolaidd gywir. • Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd. • Elfen gref o gywirdeb. • Ynganu'n gywir ac yn glir.	17-18
15-16	• Diddorol o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn ddigon hyderus. • Yn barod iawn i fynegi barn gan roi rhesymau dilys.	• Cyfathrebu'n rhwydd. • Geirfa dda iawn. • Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Iaith yn gywir iawn ar y cyfan. • Ynganu'n gywir ac yn glir ar y cyfan.	15-16
12-14	• Digonol o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn effeithiol. • Yn barod i fynegi barn gan roi rhesymau digonol.	• Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan. • Geirfa dda. • Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir ar y cyfan. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir. • Iaith yn gywir ar y cyfan. • Ynganu'n gywir ac yn glir fel arfer.	12-14

DRAFT

9-11	• Digonol o ran syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach. • Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau yn ddigon effeithiol ar y cyfan. • Mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan.	• Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan. • Geirfa eithaf da. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol digonol. • Defnyddio rhai cystrawennau Cymraeg yn gywir. • Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson) ar adegau. • Iaith yn weddol gywir ar y cyfan. • Ynganu'n ddigon cywir a chlir.	9-11
7-8	• Yn arwynebol o ran syniadau a barn gan gadw at y disgwyladwy. • Cyflwyno gwybodaeth ar bynciau cyfarwydd yn ddigon effeithiol. • Mynegi barn yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml.	• Cyfathrebu'n ddealladwy. • Geirfa ddisgwyladwy. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg ond camgymeriadau amlwg. • Cryn ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). • Iaith yn weddol gywir ond rhai camgymeriadau amlwg. • Ynganu'n ddigon clir weithiau.	7-8
5-6	• Arwynebol iawn o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth syml ar rai pynciau cyfarwydd. • Mynegi barn syml gan roi rhesymau syml.	• Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a herciog iawn. • Geirfa gyfyng gan ddefnyddio'r Saesneg yn aml. • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg. • Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol. • Camgymeriadau amlwg yn nodweddu'r gwaith. • Ynganu'n ddealladwy i wrandawr cydymdeimladol.	5-6
3-4	• Ychydig iawn o gynnwys, syniadau a barn. • Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn. • Mynegi barn syml iawn heb resymau.	• Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandawr cydymdeimladol. • Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg. • Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach nag ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Dim defnydd o gystrawennau Cymraeg. • Ffurfiau berfol anghywir yn aml. • Iaith wallus iawn. • Ynganu'n aneglur fel arfer.	3-4
0-2	• Ymdrech gyfyngedig i gyfrannu. • Diffyg barn.	• Cyfathregu cyfyngedig. • Geirfa gyfyng a syml iawn.	0-2

DRAFT

TASG 2 – Llafar – Sgwrs Sefyllfa – Gwaith Pâr/Grŵp

Marc	Cynnwys	Mynegiant	Marc
19-20	• Amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar bynciau penodol gan berswadio'n ddeheuig cyn dod i gytundeb a phenderfyniad. • Holi ac ateb yn hyderus iawn. • Mynegi barn yn hyderus iawn gan ymresymu'n berthnasol, ac yn barod iawn i gynnal dadl. • Dangos llwyr ddealltwriaeth o gyfraniadau eraill drwy ymateb yn ddeallus i'w syniadau gan gytuno a/neu anghytuno cyn dod i benderfyniad. • Cydadweithio ag eraill yn hyderus iawn.	• Cyfathrebu'n hyderus iawn. • Geirfa eang a chyfoethog. • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion a phriod-ddulliau Cymraeg yn gyson gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. • Elfen gref iawn o gywirdeb. • Ynganu'n glir ac yn gywir iawn.	19-20
17-18	• Amrywiaeth eang o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar bynciau penodol gan berswadio'n hyderus cyn dod i gytundeb a phenderfyniad. • Holi ac ateb yn hyderus. • Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol wrth gynnal dadl. • Dangos dealltwriaeth dda iawn o gyfraniadau eraill drwy ymateb yn ddeallus i'w syniadau gan gytuno a/neu anghytuno cyn dod i benderfyniad. • Cydadweithio ag eraill yn hyderus.	• Cyfathrebu'n hyderus. • Geirfa eang. • Defnyddio ystod amrywiol o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn rheolaidd gywir. • Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd. • Elfen gref o gywirdeb. • Ynganu'n glir ac yn gywir.	17-18
15-16	• Diddorol o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar bynciau penodol gan berswadio'n effeithiol cyn dod i gytundeb a phenderfyniad. • Holi ac ateb yn eithaf hyderus. • Yn barod iawn i fynegi barn gan roi rhesymau dilys. • Dangos dealltwriaeth dda o gyfraniadau eraill drwy ymateb yn ystyrlon i'w syniadau gan gytuno a/neu anghytuno cyn dod i benderfyniad. • Cydadweithio'n dda iawn ag eraill.	• Cyfathrebu'n rhwydd. • Geirfa dda iawn. • Defnyddio ystod o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn gywir. • Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Iaith yn gywir iawn ar y cyfan. • Ynganu'n glir ac yn gywir ar y cyfan.	15-16

DRAFT

12-14	• Digonol o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar bynciau penodol gan berswadio'n ddigon effeithiol cyn dod i gytundeb a phenderfyniad. • Holi ac ateb yn effeithiol. • Yn barod i fynegi barn gan roi rhesymau digonol. • Dangos dealltwriaeth eithaf da o gyfraniadau eraill drwy ymateb yn ddigon ystyrlon i'w syniadau gan gytuno a/neu anghytuno a cyn dod i benderfyniad. • Cydadweithio'n dda ag eraill.	• Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan. • Geirfa dda. • Defnyddio amrywiaeth o gwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ymadroddion y Gymraeg yn gywir ar y cyfan. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir. • Iaith yn gywir ar y cyfan. • Ynganu'n glir ac yn gywir fel arfer.	12-14
9-11	• Digonol o ran syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach. • Cyflwyno gwybodaeth ar bynciau penodol gan wneud ymdrech i berswadio cyn dod i gytundeb a phenderfyniad. • Holi ac ateb yn eitha effeithiol. • Mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan. • Dangos dealltwriaeth o rai o gyfraniadau eraill drwy ymateb yn foddhaol i rai syniadau gan gytuno a/neu anghytuno weithiau cyn dod i benderfyniad. • Cydadweithio'n dda ag eraill weithiau.	• Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan. • Geirfa eithaf da. • Defnyddio rhai cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio rhai ymadroddion Cymraeg yn gywir. • Defnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson). • Iaith yn weddol gywir ar y cyfan. • Ynganu'n ddigon clir a chywir.	9-11
7-8	• Yn arwynebol o ran syniadau a barn gan gadw at y disgwyladwy. • Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth a syniadau ar bynciau penodol ond dim llawer o ymdrech i berswadio cyn dod i gytundeb. • Yn gofyn rhai cwestiynau ac yn ymateb. • Mynegi barn yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml. • Dangos ychydig ddealltwriaeth o gyfraniadau eraill drwy ymateb yn syml i rai syniadau gan gytuno a/neu anghytuno weithiau cyn dod i benderfyniad. • Cydadweithio'n dda ag eraill weithiau.	• Cyfathrebu'n ddealladwy. • Geirfa ddisgwyladwy. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg ond camgymeriadau amlwg. • Cryn ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. • Iaith yn weddol gywir ond camgymeriadau amlwg. • Ynganu'n ddigon clir weithiau.	7-8

DRAFT

5-6	• Arwynebol iawn o ran syniadau a barn. • Cyflwyno gwybodaeth syml ar bynciau penodol cyfarwydd ond dim llawer o syniadau ffres nag ymdrech i berswadio. • Gofyn rhai cwestiynau disgwyladwy ac ymateb yn syml. • Mynegi barn syml gan roi rhesymau syml. • Dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth o gyfraniadau eraill gan fethu ymateb llawer i'w syniadau na dod i benderfyniad. • Cydadweithio ag eraill ar lefel sylfaenol iawn.	• Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a herciog iawn. • Geirfa gyfyng gan ddefnyddio'r Saesneg yn aml. • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg. • Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol. • Camgymeriadau amlwg yn nodweddu'r gwaith. • Ynganu'n ddealladwy i wrandawr cydymdeimladol.	5-6
3-4	• Ychydig iawn o gynnwys, syniadau na barn. • Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn, ond fawr ddim syniadau nag ymdrech i berswadio. • Gofyn ambell gwestiwn syml ac ateb yn syml iawn. • Mynegi barn syml iawn heb resymau. • Dangos dealltwriaeth cyfyngedig o gyfraniadau na syniadau eraill. • Yn gyndyn iawn i gydweithio ag eraill.	• Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandawr cydymdeimladol. • Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg. • Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach nag ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Dim defnydd o gystrawennau Cymraeg. • Ffurfiau berfol anghywir yn aml. • Iaith wallus iawn. • Ynganu'n aneglur fel arfer.	3-4
0-2	• Ymdrech gyfyngedig i gyfrannu. • Prinder holi, ateb, barn, rhesymu, perswadio, dealltwriaeth, ymateb a chydadweithio ag eraill.	• Cyfathrebu cyfyngedig • Geirfa gyfyng a syml iawn.	0-2

DRAFT

TASG 2 – CYNLLUN MARCIO YSGRIFENNU

Marc	Cynnwys	Mynegiant	Marc
10	• Amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn. • Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus. • Cyflwyno gwybodaeth yn gynhwysfawr gan gynhyrchu gwaith estynedig. • Mynegi barn yn rhwydd ac yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol, a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn. • Gwaith creadigol gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol.	• Cyfathrebu'n hyderus iawn. • Geirfa hynod o gyfoethog. • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gyson gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. • Elfen gref o gywirdeb trwy'r gwaith i gyd.	10
9	• Amrywiaeth eang o ran syniadau a barn. • Cynllun da a dilyniant priodol. • Cyflwyno gwybodaeth yn weddol gynhwysfawr gan gynhyrchu gwaith eithaf estynedig. • Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig peth tystiolaeth i gefnogi barn. • Gwaith creadigol diddorol sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol.	• Cyfathrebu'n hyderus. • Geirfa gyfoethog. • Defnyddio ystod amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn rheolaidd gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd. • Elfen gref o gywirdeb yn nodweddu'r gwaith.	9
8	• Diddorol o ran syniadau a barn. • Ôl cynllunio amlwg a dilyniant priodol. • Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon hyderus. • Mynegi barn yn eitha hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn. • Gwaith creadigol eitha diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol.	• Cyfathrebu'n rhwydd. • Geirfa dda iawn. • Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio cystrawennau Cymraeg yn gywir ar y cyfan. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Elfen amlwg o gywirdeb trwy'r gwaith i gyd.	8

DRAFT

Marc	Cynnwys	Mynegiant	Marc
6 - 7	• Digonol o ran syniadau a barn. • Ôl cynllunio a'r gwaith yn datblygu'n synhwyrol. • Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar y cyfan. • Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau digonol i gefnogi barn. • Gwaith creadigol a phersonol sy'n llwyddo i gadw ein diddordeb.	• Cyfathrebu'n rhwydd a llwyddiannus ar y cyfan. • Geirfa dda. • Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio prif gystrawennau sylfaenol y Gymraeg yn gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir. • Elfen amlwg o gywirdeb trwy'r rhan fwyaf o'r gwaith.	6 - 7
5	• Digonol o ran syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach. • Ôl cynllunio a'r gwaith yn datblygu'n weddol naturiol. • Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon effeithiol ar y cyfan. • Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan. • Gwaith creadigol a phersonol sy ar y cyfan yn llwyddo i gadw ein diddordeb.	• Cyfathrebu'n eithaf rhwydd a llwyddiannus ar y cyfan. • Geirfa eitha da. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol digonol. • Defnyddio'r rhan fwyaf o brif gystrawennau sylfaenol y Gymraeg yn gywir. • Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson) ar adegau. • Iaith yn weddol gywir ar y cyfan.	5
4	• Yn arwynebol o ran syniadau a barn gan gadw at y disgwyliadwy yn unig. • Peth ôl cynllunio a rhannau'n datblygu'n synhwyrol. • Cyflwyno gwybodaeth ar bynciau cyfarwydd yn ddigon effeithiol. • Mynegi barn ar bynciau cyfarwydd yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml. • Ysgrifennu personol diddorol ar destunau cyfarwydd.	• Cyfathrebu'n ddealladwy. • Geirfa sylfaenol. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol. • Defnyddio rhai o brif gystrawennau sylfaenol y Gymraeg yn gywir. • Cryn ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). • Iaith yn weddol gywir ond rhai camgymeriadau amlwg.	4

DRAFT

Marc	**Cynnwys**	**Mynegiant**	**Marc**
3	• Arwynebol iawn o ran cynnwys, syniadau a barn. • Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu'n synhwyrol. • Cyflwyno gwybodaeth syml ar bynciau cyfarwydd yn effeithiol. • Mynegi barn yn syml gan roi rhesymau syml. • Ysgrifennu personol eitha diddorol ar destunau cyfarwydd.	• Cyfathrebu'n ddealladwy ond yn betrusgar. • Geirfa gyfyngedig a pheth defnydd o'r Saesneg. • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnydd cyfyngedig o gystrawennau Cymraeg. • Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). Dibynnu'n ormodol ar y presennol. • Cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig.	3
2	• Cyfyngedig iawn o ran cynnwys, syniadau a barn. • Ychydig iawn o dystiolaeth o gynllunio ond peth dilyniant i'w weld yma ac acw. • Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn. • Mynegi barn yn syml iawn gan gynnig ambell reswm syml iawn. • Paragraff o ysgrifennu personol eitha diddorol ar destunau syml, cyfarwydd.	• Cyfathrebu'n ddealladwy ar adegau. • Geirfa gyfyng iawn gyda chryn ddefnydd o'r Saesneg. • Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach nag ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnydd cyfyngedig iawn o gystrawennau Cymraeg. • Ffurfiau berfol anghywir yn aml. • Cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml iawn yn unig.	2
0-1	• Ychydig iawn o gynnwys. • Dim tystiolaeth o gynllunio ond ambell frawddeg yn dilyn yr un flaenorol yn synhwyrol. • Cyflwyno gwybodaeth yn syml iawn, iawn mewn ychydig frawddegau. • Ymdrech elfennol iawn i fynegi barn gan lwyddo gydag ambell reswm syml iawn. • Ysgrifennu ychydig o frawddegau eitha diddorol ar destunau syml, cyfarwydd.	• Cyfathrebu'n ddealladwy ar adegau prin. • Geirfa gyfyngedig iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg. • Diffygion amlwg iawn yn y gystrawen.	0-1

DRAFT

		AMCANION ASESU			Cyfanswm y papur	
		AA1	AA2	AA3		Y (✓)
			15%	15%		
Arholiad Ysgrifennu a Darllen (Sylfaenol) UNED 1	C1		20			
	C2			20		✓
	C3		30			
	C4			30		✓
	Cyfanswm		50	50	100	
Arholiad Ysgrifennu a Darllen (Uwch) UNED 1	C1		30			
	C2			30		✓
	C3		40			
	C4			40		✓
	Cyfanswm		70	70	140	
Arholiad Llafar/Darllen (Sylfaenol) UNED 3		20%	5%			
	Arholiad pâr/grŵp	28	7		35	
	Cyfanswm	28	7		35	
Arholiad Llafar/Darllen (Uwch) UNED 3		20%	5%			
	Arholiad pâr/grŵp	40	10		50	
	Cyfanswm	40	10		50	
Arholiad Ysgrifennu a Darllen(Sylfaenol) UNED 4			10%	15%		
	C1		20			
				20		✓
			30			
				30		✓
Arholiad Ysgrifennu a Darllen (Uwch) UNED 4	C1		30			
	C2			30		✓
	C3		40			
	C4			40		✓
	Cyfanswm		70	70	140	
					Cyfanswm yr Uned	
ASESIAD DAN REOLAETH UNED 2		20%		5%		
	Tasg 1	40			40	
	Tasg 2	40		20	60	✓
	Cyfanswm	80		20	100	

DRAFT